# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Julie Evans**

**Amlwch Port**



## Dyddiad Cyhoeddi

**14 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Julie Evans wedi'i chofrestru i ofalu am uchafswm o 10 o blant hyd at 12 oed o'i chyfeiriad cartref ym mhentref Amlwch, Ynys Môn. Mae'r gwasanaeth ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7:00am a 7:00pm ac mae'n hyblyg yn dibynnu ar anghenion teuluoedd. Saesneg yw'r brif iaith a chaiff Cymraeg sgyrsiol ei defnyddio; fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth yn cynnig 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn ddiogel, yn hapus ac wedi meithrin cydberthnasau agos â'r gwarchodwr plant. Cymerir gofal wrth sicrhau y caiff iechyd a diogelwch y plant ei hyrwyddo bob amser. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd magwrus a gofalgar sy'n diwallu anghenion unigol. Mae'r cartref yn groesawgar ac yn darparu gofod cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r gwaith o reoli risgiau yn gyson ac mae'r gwarchodwr plant yn cyfleu ei gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yn llwyddiannus.

### 2. Gwelliannau

Mae ffensys newydd yn yr ardal awyr agored yn galluogi'r plant i gael mynediad diogel at yr ardd a defnyddio'r amrywiaeth o ardaloedd sydd wedi'u teilwra'n ofalus gan y gwarchodwr plant er mwyn apelio at oedrannau'r plant.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom un argymhelliad mewn perthynas â lleihau'r risg o ledaenu heintiau.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn ffynnu mewn amgylchedd gofalgar ac ysgogol. Maent yn datblygu cydberthnasau ac yn cael budd o'r profiadau diddorol sydd wedi'u cynllunio'n dda a gynigir.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn cyfrannu at syniadau; maent yn gwybod y bydd y gwarchodwr plant yn gwrando arnynt a gwnaethant fynegi eu barn yn hyderus.

Gwnaeth y plant gyfranogi'n dda a gwnaethant fwynhau chwarae gyda'r adnoddau a oedd ar gael iddynt. Gwnaethant ofyn am adnoddau ychwanegol i chwarae gyda nhw gan eu bod yn ymwybodol o'r opsiynau a oedd ar gael iddynt. Cawsant gymorth da er mwyn ymgysylltu â chwarae cadarnhaol ac ystyrlon. Gwnaethant siarad â'i gilydd am yr hyn roeddent yn ei wneud a chlywsom y plant yn dweud wrth y gwarchodwr plant eu bod yn adeiladu car ar gyfer y plentyn iau. Roedd y plant yn gwybod y byddai eu hanghenion yn cael eu diwallu oherwydd roedd anghenion unigol yn cael blaenoriaeth dros y drefn ddyddiol. Er enghraifft, dywedodd y plant wrth y gwarchodwr plant yn hyderus eu bod yn llwglyd a gwnaethant ofyn am gael cinio yn gynharach. Gallai'r plant gyfathrebu â'r gwarchodwr plant yn eu dewis iaith a chawsant ymateb cadarnhaol.

Mae'r plant yn gwybod y byddai eu hanghenion yn cael eu diwallu'n gyson a bod eu dewisiadau unigol yn cael eu bodloni.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi setlo'n dda a chânt gefnogaeth dda. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus mewn amgylchedd hamddenol a magwrus.

Mae'r plant yn cael budd o ofal a oedd yn eu helpu i fagu hyder. Cawsant eu cysuro'n briodol, gan gael cofleidiau a chysur pan fo angen, tra hefyd yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau a rhoi cynnig ar bethau newydd. O ganlyniad, mae'r plant yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Gwnaeth y plant helpu ei gilydd i fwynhau'r hyn a oedd yn digwydd, drwy rannu teganau â'i gilydd a gwneud yn siŵr bod pawb yn iawn. Roeddent yn meithrin cyfeillgarwch ac yn profi cydberthnasau agos.

Roedd y plant yn cael gofal cyson, sy'n meithrin hyder a hyder a hunan-barch cadarnhaol.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hymddygiad yn gadarnhaol.

Gwnaeth y plant reoli eu hymddygiad yn dda, gan gymryd eu tro yn rhannu adnoddau. Roeddent yn dod yn sensitif i emosiynau pobl eraill ac yn derbyn y gwahaniaethau o ran gallu ac oedran. Er enghraifft, helpodd y plant ei gilydd i ddilyn y rheolau ymddygiad. Dangosodd y plant barch at yr eiddo. Roeddent yn gwybod y gallent chwarae gyda beth bynnag roeddent yn ei ddewis ond roeddent yn deall na allai'r holl deganau fod allan ar yr un pryd, a oedd yn golygu eu bod yn deall canlyniadau eu gweithredoedd a rheolau'r gwasanaeth.

Mae'r plant yn gwrtais yn gyson ac yn dangos parch.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig ac maent yn ymgysylltu â gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae.

Roedd y plant yn uchel eu cymhelliant ac yn ymgysylltu â'u chwarae. Roeddent yn mwynhau cyfnodau estynedig o chwarae di-dor sy'n cael eu dechrau gan blant, yn ogystal â chyfleoedd rheolaidd i'r gwarchodwr plant chwarae ochr yn ochr â nhw. Gwelsom dystiolaeth o'r plant yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau gwahanol a gynlluniwyd a gwnaethant ddangos yr hyn roeddent wedi'i baentio y bore hwnnw i ni gyda balchder. Roedd y plant yn archwilio'r amgylchedd yn rhydd ac yn ddiogel, gan symud rhwng yr ystafelloedd chwarae lle roeddent yn paratoi bwyd yn y gegin chwarae cyn gweini'r bwyd yn yr ystafell eistedd. Roedd y plant yn gwenu a chawsant eu hannog i baratoi mwy o 'fwyd' o'r ymateb cadarnhaol a gawsant, a oedd yn golygu eu bod yn meithrin ymdeimlad o gyflawniad a balchder o'r hyn a wnaethant.

Mae'r plant yn cael budd o ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgareddau lle y gallant ddal ati a chanolbwyntio am gyfnod priodol o amser.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn hyderus, yn annibynnol ac yn llawn cymhelliant.

Roedd gan y plant gydberthynas ddiogel â'i gilydd a gyda'r gwarchodwr plant. Mae ganddynt yr hyder i ddefnyddio amrywiaeth eang o adnoddau a deunyddiau gan eu bod yn gwybod y cânt gymorth da. Mae profi cyfleoedd newydd a gwahanol yn rhan annatod o'r gwasanaeth hwn; gwnaeth y plant fwynhau gweithgaredd paentio a gwnaeth golchi'r paent i ffwrdd droi'n brofiad 'diwrnod sba' yng nghartref y gwarchodwr plant. Mae'r plant yn awyddus i gwblhau pethau drostynt eu hunain oherwydd maent yn cael llawer o gyfleoedd i wneud hynny. Gwnaethant gasglu eu heiddo eu hunain a bwyta eu bwyd heb fawr ddim cymorth.

Mae'r plant yn ymdopi'n dda â phrofiadau heriol, yn magu hyder o'u cyflawniadau drwy anogaeth a chymorth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig i'w rôl, a rhoddir blaenoriaeth i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda a rhoddir ystyriaeth i unigoliaeth y plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo llesiant y plant ac yn eu cadw'n ddiogel.

Gwnaeth y gwarchodwr plant gyfleu ei dealltwriaeth o'i dyletswyddau'n dda. Er enghraifft, dywedodd wrthym yn hyderus am y broses y byddai'n ei dilyn os oedd ganddi bryderon am ddiogelwch plentyn. Roedd y gwarchodwr plant wedi mynychu hyfforddiant diogelu ac roedd ganddi dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig gyfredol, a oedd yn golygu y byddai'n gallu gofalu am blentyn mewn argyfwng. Cynhaliwyd driliau tân yn rheolaidd, gyda'r gwarchodwr yn cymryd gofal mawr i sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r broses gan wneud y gwaith o ddysgu'r broses hon yn un hwyliog a diddorol iddynt. Nid oedd unrhyw gofnodion diweddar o ddamweiniau neu ddigwyddiadau. Fodd bynnag, roedd y gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldebau i gadw cofnodion o'r fath pe byddai angen. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi ei pholisi meddyginiaeth ar waith yn llawn er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Nid yw'r gwarchodwr plant yn darparu prydau bwyd. Mae disgwyl i'r rhieni baratoi pecyn cinio a byrbrydau ar gyfer eu plentyn.

Roedd y gwarchodwr plant yn diwallu anghenion gofal personol y plant ac yn sicrhau bod dwylo ac wynebau'r plant yn cael eu hymolchi'n briodol. Fodd bynnag, ni roddwyd gorchudd dros y mat newid cewynnau wrth newid cewynnau er mwyn lleihau'r risg o groesheintio.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl a'u chyfrifoldebau o ran cyflawni ymarfer cadarnhaol, a chadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn ofalgar ac yn gyson o ran ei dull o weithredu, ac nid yw'n rhoi unrhyw ansicrwydd i'r plant o ran yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall datblygiad plant a'r ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion y plant; roedd hi'n fodel rôl dda ac roedd hi'n canmol ymddygiad cadarnhaol drwy annog a chanmol yn rheolaidd. Drwy ddangos caredigrwydd a hoffter tuag atynt, roedd y plant yn ymddwyn yn yr un ffordd. Mae'r gwarchodwr plant yn gwrando ar farn y plant ac yn creu ethos o drafodaeth agored. Er enghraifft, ymgynghorwyd â'r plant i weld beth roeddent am ei wneud ar ôl cinio a rhannwyd yr opsiynau â nhw. Mae cyfranogiad plant a'u dysgu yn

hollbwysig a gwnaeth y gwarchodwr plant annog pawb i gymryd rhan. Meddai un rhiant *'my child takes part in a range of fun and educational activities and really enjoys himself.'*

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod disgwyliadau o ran ymddygiad yn glir. Caiff mewnbwn y plant ei werthfawrogi'n fawr a chânt eu canmol am y cyfraniadau cadarnhaol maent yn eu gwneud.

**2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?**

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo datblygiad pob plentyn drwy gynllunio ar gyfer amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae a dysgu.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd magwrus a gofalgar; mae'n deall ac yn diwallu anghenion unigol. Roedd y gwarchodwr plant yn dilyn cynllun gweithgareddau manwl gan sicrhau bod y plant yn cael budd o brofiadau hwyliog a diddorol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o ddysgu plant ac mae'n flaengar o ran ei dull o weithredu. Mae'n darparu amrywiaeth helaeth o brofiadau dymunol uniongyrchol, sy'n ysgogol ac yn cynnig cyfleoedd chwarae a dysgu heriol. Caiff cynnydd y plant ei olrhain ar adnodd priodol a chaiff y wybodaeth ei defnyddio'n effeithiol i gynllunio ar gyfer eu camau chwarae a dysgu nesaf. Meddai rhiant *'Julie provides and exceptionally high standard of care…she makes each day different with outings, crafts and activities'.*

Mae'r gwarchodwr plant yn hyderus ac wedi ymlacio; caiff y plant eu trin ag urddas a pharch gan wneud cynnydd da o ganlyniad i wasanaeth sydd wedi'i gynllunio'n fanwl.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd ysgogol a diogel sy'n canolbwyntio ar y plentyn.  Caiff gweithdrefnau trylwyr a systematig eu dilyn i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel a bod yr adnoddau yn lân ac o ansawdd da.

### Ein canfyddiadau

#### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol iawn o'i chyfrifoldebau mewn perthynas â hyrwyddo diogelwch a lles y plant bob amser.  Caiff proses effeithiol o reoli risgiau ei hymgorffori i'r ymarfer. Mae asesiadau risg yn gynhwysfawr, cânt eu hadolygu'n gyson a chaiff unrhyw gamau y mae angen eu cymryd eu cwblhau'n brydlon a chaiff cofnod eu cadw.  Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau wedi'u diweddaru yn unol â hyn; er enghraifft, cafodd y polisi anifeiliaid anwes ei ddiweddaru pan ymunodd y gath â'r teulu.  Gwelsom fod mesurau priodol wedi cael eu rhoi ar waith, megis cadw bwyd y gath a gwasarn y gath y tu hwnt i gyrraedd y plant, a oedd yn golygu bod unrhyw risg, cyn belled â phosibl, wedi'i dileu.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi gweithdrefnau rheoli risgiau ar waith yn gyson.

#### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd croesawgar sy'n hyrwyddo annibyniaeth y plant.

Mae'r amgylchedd wedi'i gynllunio'n dda. Mae'r cynllun a'r dyluniad yn hyrwyddo annibyniaeth y plant gan ystyried hyn o safbwynt y plentyn; gallai'r plant symud yn rhydd rhwng yr holl ardaloedd ar y llawr gwaelod, ac roedd ystafell fyw ychwanegol ar gael. Roedd y plant hŷn yn defnyddio hyn yn bennaf er mwyn ymlacio a myfyrio ar ôl ysgol.  Mae ystafell chwarae benodol yn galluogi'r gwarchodwr plant i gynllunio'r amgylchedd o amgylch anghenion y plant.  Rhoddir blaenoriaeth amlwg i'r ardal yn yr awyr agored a chaiff ei defnyddio'n rheolaidd.  Gellir defnyddio ardaloedd chwarae gwahanol ar adegau gwahanol, gyda mynediad at ardal decin.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd wedi'i gynllunio'n dda er mwyn adlewyrchu anghenion a diddordebau'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gael i'r plant sy'n addas i'w hanghenion.

Dangosodd y gwarchodwr plant ei hymroddiad a'i hymrwymiad i sicrhau bod ystod eang o adnoddau chwarae a dysgu datblygiadol addas o ansawdd da, dan do ac yn yr awyr agored, ar gael yn hawdd i'r plant. Er enghraifft, cafodd eitemau bach eu storio'n ddiogel y tu hwnt y gyrraedd y plant iau. Roeddent yn mwynhau chwarae gyda'r gegin bren yn arbennig ac aethant i nôl eitemau eraill yn yr ystafell er mwyn ehangu ac adeiladu ar eu chwarae dychmygol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau ar gael sy'n hyrwyddo chwilfrydedd y plant. Mae hyn yn cynnwys eitemau'r cartref ac eitemau cyffyrddadwy a synhwyrol; gyda'r gwarchodwr plant hefyd yn cymryd gofal mawr i ddatblygu a chreu ei hadnoddau ei hun mewn ymateb i anghenion unigol. Er enghraifft, roedd y gwarchodwr plant wedi creu ei gêm geiriau ei hun er mwyn cefnogi a helpu'r plant i ddatblygu sgiliau llythrennedd a darllen. Roedd y gwarchodwr plant hefyd wedi creu ei bwyd chwarae ei hun a gwelsom fod y plant yn mwynhau defnyddio'r rhain wrth chwarae. Mae'r adnoddau mewn cyflwr da a chânt eu diweddaru'n rheolaidd; mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod manwl pryd y cafodd eitemau eu glanhau, eu cyflwr a phryd y cawsant eu newid.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau'n gyson bod amrywiaeth helaeth o adnoddau sydd wedi'u cynllunio'n dda ar gael i'r plant.

## 4. Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth lle mae'r plant yn ffynnu, ac yn ei gynllunio'n frwdfrydig.  Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi gwelliannau parhaus ar waith ac yn ymdrechu i sicrhau bod y plant bob amser yn hapus.  Mae gweithio mewn partneriaeth â rhieni a gwneud pob ymdrech i gynnwys rhieni yn yr hyn sy'n digwydd yn un o amcanion craidd y gwasanaeth.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod polisïau effeithiol ar waith a bod y rhain yn cael eu gweithredu'n llawn yn ymarferol.

Gwnaeth y gwarchodwr plant gyfleu ei disgwyliadau uchel ar gyfer ei gwasanaeth yn llwyddiannus. Mae'n cyfleu ei gweledigaeth yn dda, yn cynnal gwelliannau ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant o bob oedran.  Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ac yn diweddaru ei pholisïau'n gyson ac mae'n sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gofal a ddarperir.  Maent yn pennu nodau clir, gydag ymarfer a pholisïau sy'n canolbwyntio ar anghenion y plant.  Mae'r datganiad o ddiben yn llawn gwybodaeth ac mae'n rhoi gwybodaeth hanfodol i'r rhieni er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniad hyddysg am ofal eu plentyn.

Mae gan y gwarchodwr plant ymdeimlad cryf o ddiben ac yn cyfrannu'n sylweddol at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi systemau effeithiol ar waith er mwyn adolygu a chasglu barn y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd.

Mae'r gwarchodwr plant yn myfyrio'n rheolaidd ar yr hyn mae'n ei wneud o ddydd i ddydd ac yn ystyriol o farn y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.  Er enghraifft, caiff gweithgareddau wythnosol eu trafod a'u rhannu â'r rhieni, a chaiff newidiadau eu gwneud pan fo angen; megis mynd â phlant i nofio a threfnu cyfleoedd priodol ar gyfer y plant, er enghraifft galluogi'r plant i fynychu gwersi nofio. Caiff contractau eu diweddaru bob blwyddyn ac anfonir holiadur i rieni ar yr un pryd.  Mae'r adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal yn dangos yn glir pwy sydd wedi cyfrannu ato ac yn amlinellu sut y caiff gwelliannau eu gwneud.   Dangosodd y gwarchodwr plant dystiolaeth ei bod wedi blaenoriaethu'r hyn roedd am ei wella; ymgymerwyd â'r gwaith a nodwyd yn yr adolygiad o ansawdd y gofal eisoes; diweddarwyd yr ardd ac roedd yr ystafell chwarae wedi dod yn rhan integredig o'r amgylchedd.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu strategaethau cadarn sy'n debygol o sicrhau gwelliannau dymunol.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ganddi ddealltwriaeth glir o'i rôl i gyflawni canlyniadau priodol ar gyfer y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn yr hyfforddiant diweddar a argymhellir yn rheolaidd, megis diogelu a hylendid bwyd, ac mae'n sicrhau bod gan bawb ar yr aelwyd dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ei gweithdrefnau'n rheolaidd ac yn eu diwygio yn ôl yr angen. Er enghraifft; mae'n gwneud defnydd da o'r adnoddau cymunedol a'r adnoddau ar y rhyngrwyd er mwyn helpu gyda'r gwaith cynllunio.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn llwyddiannus.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni ac yn rhoi gwybod iddynt am lesiant eu plentyn.

Roedd y gwarchodwr plant wedi casglu gwybodaeth hanfodol a gwybodaeth bersonol am y plant yn ei gofal. Roedd dyddiaduron dyddiol yn cael eu cynnig i'r rhieni i roi gwybod iddynt am yr hyn roedd eu plentyn wedi ei wneud yn ystod y dydd. Rhoddwyd y dyddiaduron i rieni gyda gwybodaeth fanwl iawn. Mae'r gwarchodwr plant yn mabwysiadu dull hyblyg o weithio ac mae hefyd yn gweithio oriau hyblyg, yn ymdrechu i ddiwallu anghenion y teuluoedd, yn darparu gwasanaeth hyblyg ac yn hyrwyddo cydberthynas agos rhwng y plant y mae'n gofalu amdanynt. Roedd yr holiaduron a gafwyd gan rieni yn nodi *'Julie provides an educational and safe environment for the children.'*

Mae'r gwarchodwr plant yn aelod gweithgar o'r gymuned; mae'n mynychu amrywiaeth o grwpiau chwarae lleol y mae'r plant yn eu mwynhau, ac yn ymweld â mannau o ddiddordeb yn y gymuned leol. Dywedodd wrthym fod ganddi berthynas waith agos â rhai o'r gwarchodwyr plant eraill yn yr ardal a'u bod yn cwrdd â'i gilydd yn rheolaidd.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymdrechu i weithio mewn partneriaeth â'r rhieni ac mae'n barod i fynd i'r ail filltir i'w helpu os oes modd.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Y gwarchodwr plant i ystyried y canlynol;

- rhoi gorchudd dros y mat newid cewynnau wrth newid cewynnau i leihau'r risg o groesheintio, fel yr argymhellir gan Adnodd Archwilio Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer gofal plant a rheoleiddiedig.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 17 Ionawr 2019 rhwng 9:30am a 12.45pm.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- siarad â'r plant;
- darllen holiaduron gan y rhieni;
- edrych ar ffeiliau'r plant ac arolygu'r adnoddau a'r safle
- rhoi adborth.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

7. **Ynglŷn â'r gwasanaeth**

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Julie Evans** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **0 – 12 oed** |
| **Oriau agor** | **7:00am – 7:00pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **12 Ionawr 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **17 Ionawr 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymreig.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |